

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth*
*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae cyfraith yn chwarae rhan ym mhob agwedd ar ein bywyd bob dydd. Yn y modiwl hwn, bydd y myfyrwyr yn archwilio'r gydberthynas rhwng cyfraith, cymdeithas a diwylliant. Byddant yn archwilio'r themâu hyn o safbwynt materion amrywiol ac arloesol ac yn cael cyfle i lywio eu llwybr eu hunain drwy'r modiwl drwy ddewis thema'r bloc astudio terfynol gan ganolbwyntio naill ai ar "y gyfraith a'r dyniaethau" neu "y gyfraith a'r gwyddorau". Bydd y modiwl hefyd yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth o sgiliau cyfreithiol a throsglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer parhau i astudio'n annibynnol, yn ogystal ag ar gyfer eu bywyd personol a phroffesiynol.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am addysgu neu ymarfer neu brofiad diweddar ohonynt, ynghyd ag ymwybyddiaeth o ddatblygiadau diweddar yn un neu fwy o'r themâu pwnc canlynol: *Rhywedd, rhywioldeb a'r gyfraith; Y cyfryngau, y rhyngwrwyd a'r gyfraith; Y gyfraith a'r dyniaethau; Y gyfraith a'r gwyddorau*
- y gallu i drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth i fyfyrwyr drwy arfer addysgu effeithiol, gan gynnwys themâu pwnc y modiwl yr ydych yn llai cyfarwydd â nhw neu'n llai profiadol o ran eu haddysgu
- y gallu i hwyluso a datblygu dysgu'r myfyrwyr drwy eu hymchwil annibynnol eu hunain.
- y gallu i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch yr amgylchedd cyfreithiol sy'n newid a'r newidiadau ym maes addysgu'r gyfraith.
- tystiolaeth o ddull systematig o addysgu sgiliau cyfreithiol academiaidd sylfaenol a rhesymu cyfreithiol sy'n briodol i astudiaethau lefel 3.
- hanes o ddatblygiad personol ac arfer myfyrion ac ymrwymiad parhaus iddynt, ynghyd â'r gallu a'r parodrwydd i fentora/cefnogi myfyrwyr wrth Gynllunio Datblygiad Personol.
- tystiolaeth o'r gallu i roi adborth ysgrifenedig priodol ac wedi'i deilwra ar aseiniadau ysgrifenedig a chyflwyniadau llafar, gan gyfeirio at gynnwys a sgiliau er mwyn helpu myfyrwyr unigol i ddatblygu drwy eu rhaglen astudio yn unol â safonau cytunedig y Brifysgol.
- y gallu i ddangos sgiliau rheoli llwyth gwaith effeithiol a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser y brifysgol.
- y gallu i ddefnyddio technoleg ar-lein ac i diwtora myfyrwyr gan ddefnyddio cyfuniad o diwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein a fforymau.
- y gallu i diwtora amrywiaeth eang o fyfyrwyr â galluoedd, dulliau dysgu, nodau astudio a phrofiadau amrywiol.
- tystiolaeth o'r gallu i gydweithio â thiwtoriadaid eraill er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol ar draws nifer o grwpiau tiwtor, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb.

*Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	9